Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

# Cynllun Cydraddoldeb Blaenau Gwent 2024-28

## Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o'r ddogfen:

Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb 2024 - 2028



**Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon?**
Mae'r ddogfen hon yn fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r ddogfen yn sicrhau bod y geiriau a'u hystyr yn hawdd i'w deall.

Os ydych chi eisiau cymorth i'ch helpu i ddarllen a deall y ddogfen, gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Mae yna rai geiriau sy'n anodd eu deall. Mae'r geiriau hynny mewn **ysgrifen glas trwm (bold)**. Byddwch hefyd yn gweld bod y geiriau yn cael eu hesbonio mewn bocs o dan y gair hwnnw.

Os defnyddir y gair anodd eto, mae mewn ysgrifen glas print arferol. Gallwch wirio beth mae'n ei olygu ar dudalen 15.

Lle defnyddir 'ni/ni'n' yn y ddogfen, mae'n golygu Cyngor Blaenau Gwent. Mae dolenni i wybodaeth bellach mewn **ysgrifen porffor trwm (bold)**. Rydym wedi defnyddio symbolau Lluniau i wneud y ddogfen yn weledol ac yn hawdd ei deall.

**Angen mwy o help?**
A oes angen i chi weld y ddogfen mewn fformat gwahanol? e.e. print bras, Braille, fersiwn sain, ac ati. Anfonwch e-bost at: **pps@blaenau-gwent.gov.uk**

**Am beth mae'r ddogfen hon yn sôn?** Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gyfraith i sicrhau bod pobl yn cael eu trin yn deg.



Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn dweud bod gan bawb yr hawl i:

- cael eu trin yn deg
- cael yr un cyfleoedd ag eraill bod yn rhydd rhag
- **gwahaniaethu**

**Gwahaniaethu** yw pan fyddwch yn cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol.

Rydym am ddweud wrthych am ein nodau cydraddoldeb newydd a'n cynllun gweithredu i'w cyflawni.

Yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i ni gynhyrchu Cynllun Cydraddoldeb newydd bob pedair blynedd.

**Mae’r gyfraith yn amddiffyn pobl â nodweddion gwarchodedig rhag cael eu trin yn wahanol oherwydd yr hyn a restrir isod:**

Nodweddion Gwarchodedig yw nodweddion sy’n rhan o’ch hunaniaeth bersonol er enghraifft eich rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol. Mae’n nodwedd bersonol na ellir ei defnyddio fel rheswm i wahaniaethu yn erbyn rhywun.

**Oedran -** Pobl o wahanol oedrannau fel pobl hŷn a phobl iau.



**Anabledd -** rhywbeth sy’n ei gwneud hi’n anoddach i berson wneud rhai gweithgareddau neu gael mynediad at wasanaethau.



**Ailbennu rhywedd (Trawsrywiol)**

Dyma pan fydd person yn teimlo nad yw’r corff y cawsant ei eni ynddo yn iawn iddynt. Efallai y byddant am newid o fenyw i ddyn neu ddyn i fenyw.




**Priodas a phartneriaethau sifil -** dyma pan fydd dau berson sy'n meddwl y byd o'i gilydd yn ymuno mewn undeb gyda'i gilydd.



**Hil -** gall olygu lliw croen person, ethnigrwydd, cenedligrwydd a dinasyddiaeth. Gall person gael ethnigrwydd gwahanol i'w genedligrwydd - efallai bod gan berson dreftadaeth Indiaidd ond ei fod yn byw ym Mhrydain gyda phasbort Prydeinig.



**Crefydd neu Gred -** Pobl o grefyddau gwahanol - neu sydd heb unrhyw gredoau crefyddol.



**Rhyw -** Fel arfer rhoddir rhyw i berson pan fydd yn cael ei eni ac fe'i gelwir fel arfer yn ferch/ bachgen neu dyn/menyw. Mae rhywedd, ar y llaw arall, yn ymwneud â sut mae person yn uniaethu.






**Cyfeiriadedd Rhywiol – Pan fydd person yn syth, hoyw, lesbiaidd neu ddeurywioll.**

Merched Lesbiaidd - merched sy'n cael eu denu at ferched eraill

Dynion hoyw - dynion sy'n cael eu denu at ddynion eraill

Merched a Dynion Deurywiol - pobl sy'n cael eu denu at ferched a dynion.

Syth - pobl sy'n cael eu denu at y rhyw arall, felly merch sy'n cael ei denu at ddyn neu ddyn sy'n cael ei ddenu at ferch.

**Beichiogrwydd a mamolaeth** - bod yn feichiog, neu gael babi.



# Ein Nodau Cydraddoldeb ar gyfer 2024-2028

## Beth rydym yn bwriadu ei wneud o nawr tan 2028

### 1: Byddwn ni yn sefydliad sy'n trin pobl yn deg

> Byddwn ni'n gwneud yn siŵr ein bod yn gwrando ac yn defnyddio profiadau byw i'n helpu ni i gynllunio.

> Byddwn ni'n ceisio dileu rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael mynediad at gymorth neu wasanaethau a fydd yn eu.

> Byddwn ni'n datblygu a darparu hyfforddiant ar gydraddoldeb i greu gwell dealltwriaeth.

> Byddwn ni'n gwneud yn siŵr ein bod yn cysylltu â chynllun gweithredu Llywodraeth Cymru i ddod yn Gymru Wrth-hiliol a chynllun gweithredu LHDTC+ i Gymru.



## 2: Byddwn ni'n weithle sy'n hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant

Mae hyn yn golygu y byddwn ni'n cefnogi, amddiffyn ac yn brwydro dros hawl person neu bersonau.

Rhai enghreifftiau:

> Creu sefydliad lle mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu gwerthfawrogi a'u dathlu.

> Cyhoeddi ein gwybodaeth ar y bwlch cyflog rhywedd ac ystyried gwybodaeth anabledd ac ethnigrwydd.

> Gwneud yn siŵr ein bod yn cael gwared ar rwystrau wrth recriwtio.

> Cynyddu amrywiaeth yn ein gweithlu i Gymru.



## 3: Byddwn ni'n creu diwylliant dysgu teg a chynhwysol i bob plentyn a pherson ifanc.

Rhai enghreifftiau:

> Gwella'r wybodaeth a gawn gan ein

> Cyflwyno'r cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth mewn

> Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi

> Cynyddu amrywiaeth ar ein Fforwm Ieuenctid



## 4: Byddwn ni’n hyrwyddo ac yn cefnogi cymunedau diogel a chyfeillgar.

Rhai enghreifftiau:

> Gweithio gyda grwpiau a phobl â nodweddion gwarchodedig i ddeall materion cydraddoldeb.

> Gwneud yn siŵr ein bod yn gweithio gyda phartneriaid i weithredu ac atal pethau i sicrhau bod ein cymunedau’n ddiogel.

> Cynnal digwyddiadau sy’n dathlu amrywiaeth i ddod â chymunedau at ei gilydd.

> Herio barn negyddol am bobl.



**5: Byddwn ni'n gweithio gyda sefydliadau, grwpiau a phobl fel ein bod yn deall materion cydraddoldeb.**

Rhai enghreifftiau:

> Sicrhau ein bod yn ymgysylltu ac yn annog cyfranogiad gan ein cymunedau a'n staff.

> Gwneud yn siŵr ein bod yn siarad â phobl i gael storïau am brofiadau bywyd.

> Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu

> Edrych ar ein haelodaeth ar grwpiau a gwneud yn siŵr bod gennym ni aelodau â nodweddion gwarchodedig.



## 6: Byddwn ni'n gweithio i leihau

Rhai enghreifftiau:

> Hyrwyddo cymorth costau byw i'n cymunedau.

> Sicrhau bod y sefydliad yn defnyddio'r broses **Asesiad Effaith Integredig**.

| |
|---|
| Mae Asesiad Effaith Integredig yn ffurflen a ddefnyddir i ddeall effaith penderfyniad ar ein gwasanaethau, staff a chymunedau. |

> Gwneud yn siŵr ein bod yn ymgysylltu â'n cymunedau i ddeall y **materion economaidd-gymdeithasol**

| |
|---|
| Mae economaidd-gymdeithasol yn gysylltiedig â'r gwahaniaethau rhwng grwpiau o bobl yn bennaf oherwydd eu sefyllfa ariannol. |



## SoFelly sut wnaethon ni gyrraedd y Nodau Cydraddoldeb?

Buom ni'n siarad â phobl am yr hyn oedd yn bwysig iddyn nhw a beth oedd angen i ni ei wneud fel Cyngor. Cymerodd **160** o bobl ran mewn ymgysylltu wyneb yn wyneb a'n harolwg ar-lein. Gallwch ddarllen am hyn yma: **Ymgysylltu â Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028.**



Buom ni'n siarad ac yn gweithio gyda'n holl reolwyr gwasanaeth i gytuno ar y nodau cydraddoldeb.



Fe wnaethom ni ddefnyddio gwybodaeth ac adroddiadau, fel **adroddiad A yw Cymru'n Decach 2023**.



## Sut byddwn ni'n cyflawni ein nodau?

Byddwn ni'n gweithio i gyflawni ein nodau dros y pedair blynedd nesaf.




Byddwn ni'n datblygu cynllun gweithredu.




Byddwn ni'n gwirio ein cynnydd tuag at y camau gweithredu yn ein cynllun yn rheolaidd.



Mae gennym ni ddyletswydd i gynhyrchu adroddiad bob blwyddyn i ddangos ein cynnydd tuag at ein nodau.



## Geiriau Anodd

**Gwahaniaethu** - mae hyn yn golygu pan fyddwch yn cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol.

**Nodweddion Gwarchodedig** - mae hyn yn golygu nodweddion sy'n ffurfio eich hunaniaeth bersonol er enghraifft eich rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol. Mae'n nodwedd bersonol na ellir ei defnyddio fel rheswm i wahaniaethu yn erbyn rhywun.

**Hyrwyddwyr** - mae hyn yn golygu y byddwn ni'n cefnogi, amddiffyn a brwydro dros hawliau person neu bersonau.

**Cyfeiriadedd rhywiol** - mae hyn yn golygu pan fo person yn syth, hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol.

**Merched lesbiaidd** - mae hyn yn golygu merched sy'n cael eu denu at ferched eraill.

**Dynion hoyw** - mae yn yn golygu dynion sy'n cael eu denu at ddynion eraill.

**Merched a Dynion Deurywiol** - mae hyn yn golygu pobl sy'n cael eu denu at ddynion a merched.

**Syth** - mae hyn yn golygu pobl sy'n cael eu denu at y rhyw arall, felly dyn sy'n cael ei ddenu at fenyw neu fenyw sy'n cael ei denu at ddyn.

**Asesiad Effaith Integredig** - ffurflen, proses a ddefnyddir i wneud penderfyniadau a deall yr effaith ar wasanaethau, staff a'r gymuned.

**Economaidd-gymdeithasol** - mae hyn yn ymwneud â'r gwahaniaethau rhwng grwpiau o bobl yn bennaf oherwydd eu sefyllfa ariannol.

## Cymryd Rhan

Ydy chi eisiau sgwrsio gyda ni? Os ydych chi, anfonwch e-bost i:
**pps@blaenau-gwent.gov.uk**